

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ward Meadow, Ysbyty Tŷ Glyn Ebwy

Dyddiad yr arolygiad: 15, 16 ac 17 Ebrill 2024

Dyddiad cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	21
4.	Y camau nesaf.....	24
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	28

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd yn Ysbyty Tŷ Glyn Ebwy ar 15, 16 ac 17 Ebrill 2024.

Mae Tŷ Glyn Ebwy yn wasanaeth arbenigol sy'n darparu gofal a thriniaeth i gleifion benywaidd dros 18 oed sydd ag anhwylderau bwyta.

Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Meadow - 15 o welyau sy'n darparu gwasanaeth ar gyfer anhwylderau bwyta.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd dau holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a saith gan aelodau o'r staff.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Gallai'r cleifion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, ac yn ystod yr arolygiad, roedd yn gadarnhaol gweld y staff yn annog ac yn cefnogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion wrthym yr hoffent weld gweithgareddau mwy perthnasol sydd wedi'u teilwra at helpu pobl ag anhwylderau bwyta i adfer.

Yn ogystal, dywedodd y cleifion wrthym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â phrydau bwyd.

Gallai'r cleifion ymgysylltu â'r staff a rhoi adborth iddynt am y gofal a ddarparwyd yn yr ysbyty mewn sawl ffordd. Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a oedd yn rhoi gwybodaeth a chymorth iddynt o ran unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â'u gofal.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gweithgareddau therapiwtig sy'n berthnasol i anhwylderau bwyta ac adfer
- Gwelliannau mewn perthynas â phrydau bwyd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Roedd y cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys. Roedd tystiolaeth glir wedi'i dogfennu hefyd bod y cleifion yn cael eu cynnwys.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Ar noson gyntaf yr arolygiad, ni lwyddodd y staff i ddod o hyd i'r torwyr clymau mewn modd amserol.

Roedd rhywfaint o ddryswch ynghylch ymwybyddiaeth a gwybodaeth y staff a'r cleifion am gyfleusterau storio diogel a mynediad at allwedd i'r ystafelloedd gwely.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwybodaeth y staff am leoliad y torwyr clymau
- Gwybodaeth y staff am y cyfleusterau storio diogel sydd ar gael yn ystafelloedd gwely'r cleifion
- Gwybodaeth y staff ynghylch p'un a oes gan y cleifion yr hawl i gael allwedd i'w hystafelloedd gwely.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion meddyginiaeth yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, a gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau yn cael eu cynnal
- Roedd cynlluniau gofal yn fanwl ac roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn cael eu cynnwys
- Glendid yr ysbyty a'r ystafelloedd clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau addas ar waith i uwch-aelodau o'r staff fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol ac i sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth cyffredinol yn uchel. Roedd cyfarfod diogelwch yn cael ei gynnal bob bore i'r staff roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r uwch-reolwyr am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a fu yn ystod y diwrnod blaenorol.

Roedd cyfarfodydd staff a chleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd rheolwr yr ysbyty yn annog y staff i fynd i'r cyfarfodydd hyn a rhoi eu barn ar sut y gellir gwella'r gwasanaeth.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion a'u bod yn awyddus i gael rhagor o hyfforddiant i'w helpu i gefnogi'r grŵp cleifion yn well.

Cymerodd y staff ran gadarnhaol yn ein harolygiad a gwnaethant ddangos ymrwymiad clir i wella.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu hyfforddiant ychwanegol pwrpasol i'r staff
- Darparu adborth i'r staff ar berfformiad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cyfarfodydd staff a chleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd
- Roedd ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. O safbwynt yr holiaduron, dim ond un ymateb a gawsom gan glaf ac un ymateb gan deulu. Fodd bynnag, roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn canmol y staff a'r gofal a ddarperir iddynt. Gwnaethom hefyd adolygu'r cofnodion adborth mewnol gan gleifion i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion.

Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Ni chwblhawyd nifer digonol o holiaduron, ond yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â staff a chleifion ac mae rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r lifftiau bob amser wedi torri".

"Mae'r staff yn garedig".

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gan Ysbyty Tŷ Glyn Ebwy amrywiaeth o gyfleusterau er mwyn helpu i ddarparu therapiau a gweithgareddau. Gwelsom y cleifion yn yr ysbyty yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol yr arolygiad. Ymhlith y gweithgareddau hyn roedd celf a chreffft, clwb garddio a gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion wrthym y byddai gweithgareddau mwy therapiwtig sy'n berthnasol i anhwylderau bwyta ac adfer yn fuddiol iddynt. Yn ogystal, dywedodd y cleifion a'u teuluoedd wrthym y byddent yn hoffi gweld mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig dros y penwythnos.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael gweithgareddau mwy therapiwtig sy'n berthnasol i anhwylderau bwyta ac adfer.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gweithgareddau ar gael i'r cleifion dros y penwythnos.

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol.

Roedd nifer o daflenni hybu iechyd a manylion am sefydliadau cymorth ar gael yn yr ysbyty ar gyfer y cleifion.

Urddas a pharch

Gwnaethom nodi bod yr holl gyflogeion, staff y ward, uwch-reolwyr, a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac yn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon a godwyd ganddynt. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Roedd gan y cleifion ystafelloedd en-suite a oedd yn rhoi safon dda o breifatrwydd ac urddas. Roedd panel gweld ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb agor y drws, er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar y cleifion pan fyddent yn cysgu. Gallai'r cleifion newid a rheoli'r panel arsylwi hefyd.

Roedd rhywfaint o ddryswch yn ystod yr arolygiad ynghylch mynediad cleifion i allweddi a chyfleusterau storio diogel y gellir eu cloi yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd y cleifion a'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oedd unrhyw gyfleusterau storio diogel yn ystafelloedd gwely'r cleifion ac nad oedd gan y cleifion allweddi i fynd i mewn i'w hystafelloedd. Ar ôl siarad ag uwch-aelodau o'r staff, cafwyd cadarnhad bod cyfleusterau storio diogel ar gael i'r cleifion, ynghyd ag allweddi i gloi eu hystafelloedd gwely.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff a'r cleifion yn cael gwybod bod cyfleusterau storio diogel ac allweddi ar gael ar gyfer ystafelloedd.

Roedd y cleifion i weld fel petaent yn adnabod y staff; fodd bynnag, dim ond bwrdd darluniadol yn cynnwys lluniau o aelodau'r tîm therapi galwedigaethol a welsom. Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried gosod bwrdd yn dangos lluniau o aelodau pob tîm staff.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos ar y ward i'r cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod posteri yn arddangos gwybodaeth am wasanaethau eirioli a sut y gallai'r cleifion roi adborth ar y gofal roeddent yn ei gael ar y ward.

Roedd gwybodaeth am amseroedd ymweld yn cael ei harddangos hefyd. Gwelsom fod arwyddion clir ar y waliau.

Roedd datganiad o ddiben y darparwr cofrestredig yn disgrifio nodau ac amcanion y gwasanaeth hefyd. Roedd y ddogfen hon yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl

wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Roedd tystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a gwybodaeth am sut i wneud cwyn i'w gweld.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol.

Roedd cyfarfodydd â'r cleifion yn cael eu cofnodi ac roeddent yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn cael adborth gan y cleifion. Roedd yn amlwg bod y cleifion yn mynd i'r cyfarfodydd hyn ond dywedodd rhai cleifion nad oeddent bob amser yn teimlo'n gyfforddus yn codi materion yn y cyfarfodydd. Trafodwyd hyn â rheolwr yr ysbyty a oedd yn ystyried ffyrdd o roi adborth dienw.

Dywedodd rhai o'r cleifion wrthym, er eu bod yn rhoi adborth, nad ydynt bob amser yn teimlo bod unrhyw un yn gwrandao ar yr adborth hwnnw, ond aethant ymlaen i ddweud wedyn bod gwelliannau a newidiadau'n cael eu gwneud weithiau ar ôl eu hadborth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gwrandewir ar adborth ar faterion a godir gan y cleifion, a bod diweddariadau amserol a chyflym yn cael eu rhoi i'r cleifion.

Gwelsom sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol a oedd yn dangos bod person annibynnol yn cael ei benodi i ymchwilio i bob cwyn a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwyno'r sefydliad er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn briodol yn yr ysbyty.

Roedd gweithdrefn gwyno'r ysbyty yn cael ei harddangos ar fwrdd gwybodaeth fel y gallai'r cleifion weld y broses yn hawdd. Roedd prosesau cwyno i'w gweld ar ddrws yr orsaf nyrsio hefyd.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, gan gynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion. Er enghraifft, drwy ddeall pan oedd yn well gan y cleifion gael lloenydd a hwyluso hyn, ond gan ar yr un pryd gynnal lefelau arsylwi priodol.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn ac wedi'u personoli, a oedd yn helpu'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd cyfarfod trosglwyddo yn cael ei gynnal bob bore yn ystod yr wythnos i'r staff nyrso roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm amlddisgyblaethol am unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a fu yn ystod y diwrnod blaenorol. Gwnaethom fynd i gyfarfod trosglwyddo yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff yn deall y cleifion roeddent yn gofalu amdanynt yn dda, a bod y trafodaethau yn canolbwyntio ar yr hyn a fyddai orau i'r claf unigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty.

Dyweddodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn rhoi sylw priodol i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd y cynlluniau gofal a thriniaeth a welsom yn dangos bod anghenion cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol y cleifion wedi cael eu hystyried.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr ynghylch sut i roi adborth. Mae cynlluniau ar waith i anfon arolygon at deuluoedd a gofalwyr ddwywaith y flwyddyn. Roedd rheolwr yr ysbyty wrthi'n cyflwyno blwch awgrymiadau hefyd fel y gallai'r cleifion a/neu aelodau o'u teuluoedd roi adborth a gwneud awgrymiadau yn ddiennw.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y canllaw gwybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei roi i'r cleifion pan fyddent yn cael eu derbyn i'r ysbyty hefyd yn cynnwys manylion am sut y gallai'r cleifion wneud cwyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Yr Amgylchedd

Roedd giât â chlo yn diogelu maes parcio'r ysbyty. Gall ymwelwyr gael mynediad i'r maes parcio drwy ddefnyddio'r intercom i ymwelwyr ac mae gan y staff allwedd ffob electronig. O ystyried sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar hyn o bryd, roedd y giât fynediad a'r ffens amgylchynol yn ymddangos yn gyfyngus ar yr adeg hon. Cydnabyddir bod cynlluniau i ehangu'r gwasanaeth ond tra bod y gwasanaeth yn gweithredu fel y mae, mae angen i'r darparwr cofrestredig adolygu'r cyfyngiadau diogelwch presennol i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar y grŵp cleifion presennol.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r giatiau clo a'r ffens amgylchynol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd.

Roedd gofyn i ymwelwyr fynd i mewn i'r ysbyty drwy dderbynfa a chofrestru wrth iddynt gyrraedd. Roedd yr ysbyty ar ddau lawr. Roedd mynediad gwastad i'r brif fynedfa a'r llawr gwaelod ac roedd lifft ar gael i fynd i'r llawr cyntaf. Roedd y trefniadau hyn yn galluogi cleifion ac ymwelwyr, gan gynnwys y rhai ag anawsterau symudedd, i gyrraedd y ward yn ddiogel ac yn hawdd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y lifftiau yn aml wedi torri a'i bod weithiau yn cymryd amser i'w trwsio, ond roedd pob lifft yn gweithio ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y lifftiau'n cael eu trwsio'n gyflym ac mewn modd amserol pan na fyddant yn gweithio.

Roedd y staff yn cario dyfeisiau radio y gallent eu defnyddio i alw am gymorth pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion hefyd, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen.

Yn gyffredinol, gwelsom fod yr amgylchedd gofal yn daclus a bod awyrgylch hamddenol ar y ward. Roedd ardaloedd awyr agored dymunol ar gael i'r cleifion, fel 'gardd zen' y gallai'r cleifion ei defnyddio, ond roedd yr ardd ar glo yn aml ac felly roedd yn rhaid i'r cleifion ofyn i'r staff ddatgloi'r ardd yn ystod y dydd os oeddent am ei defnyddio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gall y cleifion fynd i'r gerddi fel y mynnant yn ystod y dydd.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd

wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau wythnosol a oedd yn cael eu cynnal gan reolwr y ward.

Roedd y cyfarpar adfywio yn cael ei archwilio bob wythnos; roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Roedd gan yr ysbyty gynllun parhad busnes, roedd pob un o'r polisiau diogelwch tân yn gyfredol ac roedd yr holl asesiadau risg tân wedi cael eu cwblhau hefyd.

Roedd y ffigurau atal yn gorfforol yn isel ac roedd pob digwyddiad wedi'i gofnodi'n drylwyr. Mae'n nodedig bod cyn lleied o ddefnydd yn cael ei wneud o ddulliau atal yn gorfforol a bod pwyslais yn cael ei roi ar reolaeth gefnogol. Roedd tystiolaeth i ddangos bod ôl-drafodaethau digonol yn cael eu cynnal hefyd.

Roedd polisi dulliau atal ar waith ond nid oedd y polisi gan Elysium yn cyfeirio'n benodol at ddulliau atal o fewn gwasanaethau anhwylderau bwyta.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi presennol yn cael ei ddiweddarau a'i fod yn cyfeirio'n benodol at ddulliau atal o fewn gwasanaethau anhwylderau bwyta.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiwyd system o drefniadau archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn ceisio nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle bo angen.

Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau a gwelwyd bod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau glanhau yn effeithiol.

Roedd yr ysbyty yn lân, yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol.

Drwy gydol yr arolygiad, gwnaeth y tîm arolygu nodi lefel uchel o lendid yn yr ysbyty, a oedd yn cyfrannu at wella profiad y cleifion tra roeddent yn aros yn yr ysbyty.

Maeth

Dywedodd y cleifion wrthym mai'r prif beth roeddent yn cwyno amdano oedd prydau bwyd. Roedd pryderon wedi cael eu codi bod maint y prydau bwyd yn anghywir ac nad oedd y bwyd yn cael ei baratoi a'i weini i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu helpu i adfer.

Roedd rheolwr yr ysbyty wedi trefnu cyfarfodydd a hyfforddiant â staff y gegin er mwyn gwneud gwelliannau ac roedd hefyd wedi trefnu cyfarfodydd â'r cleifion er mwyn ceisio mynd i'r afael â'u pryderon. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion wrthym fod problemau yn parhau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i faint y prydau bwyd a'r ffordd y cânt eu paratoi er mwyn sicrhau bod anghenion unigol pob claf yn cael eu diwallu.

Yn ystod prydau bwyd, gwelsom nad oedd y staff yn ymgysylltu â'r cleifion pan oeddent yn bwyta, hyd yn oed mewn ffordd anffurfiol. Nodwyd bod rhai cleifion yn amlwg yn cael trafferth gorffen eu bwyd ac nad oedd y staff yn defnyddio unrhyw dechnegau i reoli gofid na chefnogi'r cleifion. Yn ogystal, gwelsom nad oedd y cleifion yn cael unrhyw gymorth cyn i'w prydau bwyd gael eu gweini. Gwelwyd sefyllfa debyg ar ôl y prydau bwyd, pan wnaeth y staff ddilyn un claf a oedd yn ymddangos fel pe bai'n emosiynol ar ôl ei bryd bwyd ond na wnaethant geisio ymgysylltu â'r claf na rhoi cymorth iddo ar ôl y pryd bwyd. Mae'n bwysig bod y staff yn cael hyfforddiant digonol er mwyn gallu rhoi cymorth i'r cleifion cyn ac ar ôl prydau bwyd.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael cymorth gan y staff cyn ac ar ôl prydau bwyd a bod y staff yn cael hyfforddiant digonol i'w galluogi i gefnogi'r cleifion yn effeithiol ar yr adegau hyn.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi codi pryderon bod staff y gegin yn paratoi maint prydau bwyd yn anghywir a bod y bwyd yn cael ei weini iddynt mewn ffordd nad oedd yn helpu i drin anhwylder bwyta. Mae'n ymddangos bod newidiadau wedi cael eu gwneud a bod y staff bellach yn darparu prydau bwyd a byrbrydau heb wybodaeth amlwg am galoriau, ac mae staff y gegin a'r ward wedi cwblhau hyfforddiant ar gynllunio maint prydau bwyd.

Yn ystod y cyfnod pryd bwyd a welsom, cafodd prydau bwyd eu gweini mewn ffordd briodol i'r grŵp cleientiaid. Fodd bynnag, dywedodd cleifion ei bod yn gas ganddynt feddwl am ddychwelyd ar gyfer prydau bwyd am eu bod wedi gorfod ailadrodd cynlluniau bwyd mor aml a dywedodd rhai cleifion fod cynlluniau bwyd wedi cael eu colli neu fod staff y gegin wedi gweini prydau anghywir nad oeddent yn cyd-fynd â'u cynllun. Roedd staff yr ysbyty yn ymwybodol o'r broblem hon ac roeddent yn gwneud pob ymdrech i gywiro eu prosesau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff y gegin yn cadw at gynlluniau bwyd a maint prydau bwyd y cleifion.

Roedd yr ardaloedd bwyta yn lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion fwyta eu prydau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cloi. Roedd tystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Roedd y fferyllfa yn rhoi mewnbwn rheolaidd ac yn cynnal archwiliad bob wythnos a oedd yn hwyluso'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau ar y ward.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welsom wedi'u cwblhau'n llawn gan y staff. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Gwelsom fod y dyddiad ar y polisiau meddyginiaeth yn yr ystafell glinigol wedi mynd heibio.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau yn yr ystafell glinigol yn gyfredol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan yr ysbyty bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd gweithiwr cymdeithasol yn gweithio yn yr ysbyty ac ar gael i staff yr ysbyty, ac roedd gweithdrefnau diogelu ar gael ar y fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion agored i niwed a phlant, a bod achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Wrth sgwrsio â'r staff, roedd yn amlwg bod y gweithiwr cymdeithasol wedi meithrin cydberthynas waith agos â'r awdurdod lleol. Mae'r dull gweithredu cydweithredol hwn yn rhan allweddol o brosesau diogelu effeithiol a dangosodd fod yr ysbyty yn rhoi cryn bwyslais ar ddiogelu eu cleifion.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd o gyfarpar adfywio. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar gael, gan gynnwys asesiadau risg mewn perthynas â phwyntiau clymu.

Roedd y dyddiad ar y silindrau ocsigen yn yr ystafell glinigol newydd fynd heibio. Tynnwyd sylw rheolwr yr ysbyty at y mater hwn, a dywedodd ei fod eisoes wedi archebu rhai newydd.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir bod rhai ohonynt yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng. Ar noson gyntaf yr arolygiad, bu rhywfaint o oedi cyn i'r staff ddod o hyd i'r torwyr clymau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod ble mae'r torwyr clymau'n cael eu cadw a bod modd cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Caiff yr holl ddata yn ymwneud â digwyddiadau eu casglu a chaiff dadansoddiad manwl o ddigwyddiadau ei baratoi i'w drafod yn ystod cyfarfodydd llywodraethu.

Cadarnhaodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr arolygiad mai anaml y ceir digwyddiadau ac anaml y caiff ymyriadau corfforol eu defnyddio. Roedd hyn yn dangos bod y model gofal lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar ymgysylltiad therapiwtig rhwng y staff a'r cleifion a oedd yn creu awyrgylch hamddenol ar y ward. Pan fydd rhywun yn cael ei atal yn gorfforol, caiff yr holl waith papur a gwblhawyd ei wirio a'i oruchwyllo'n gadarn a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau.

Roedd amrywiaeth o hyfforddiant ar-lein ar gael i'r staff ac roeddent wedi treulio cyfnodau ar secondiad mewn gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, nid oedd yn ymddangos bod ganddynt lawer o brofiad clinigol â chleifion ag anhwylderau bwyta. Dywedodd y staff wrthym y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant mwy pwrpasol mewn perthynas ag anhwylderau bwyta a chadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod yn teimlo bod angen hyfforddiant mwy arbenigol ar y staff.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael mwy o hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol ag anhwylderau bwyta.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Yn ystod ein trafodaethau â rheolwr yr ysbyty, cawsom nifer o enghreifftiau lle roedd yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir, ac yn ystyried datblygu rhai agweddau ar yr ysbyty. Ar adeg ein harolygiad, roedd nifer o welliannau wrthi'n cael eu gwneud i safle'r ysbyty, fel gwelliannau i'r ardd a'r ardaloedd awyr agored ac roedd gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud i amgylchedd yr ysbyty yn gyffredinol.

Roedd aelodau'r tîm therapi galwedigaethol wedi bod yn helpu'r grŵp cleifion i godi arian gydag elusen Beat Eating Disorder ac roeddent wedi bod yn cynnwys y cleifion yng ngweithgareddau wythnos ymwybyddiaeth o anhwylderau bwyta'r elusen. Roedd y tîm therapi galwedigaethol hefyd wedi sefydlu clwb caffi i gleifion yn y gymuned leol.

Yn ogystal, roedd y seiciatrydd ymgynghorol yn gweithio'n galed i feithrin a datblygu partneriaethau cydweithredol â rhwydweithiau eraill ym maes anhwylderau bwyta. Roedd yn cymryd camau rhagweithiol i sefydlu rhwydwaith anhwylderau bwyta gan gydnabod bod y gwasanaeth yn newydd a'i fod yn datblygu ac y byddai bod yn rhan o rwydwaith yn cryfhau cysylltiadau â chyfleusterau anhwylderau bwyta eraill, ac yn atgyfnerthu arferion a gweithdrefnau yn yr ysbyty.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y systemau cofnodion cleifion cyfrifiadurol wedi'u datblygu'n dda ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel am ofal cleifion unigol. Roedd y system yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei defnyddio.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill yr ysbyty, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf cyfuniad o gofnodion electronig a chofnodion papur. Roedd cyfrinair yn diogelu'r cofnodion electronig ac roedd y dogfennau papur yn cael eu storio'n ddiogel mewn swyddfeydd wedi'u cloi er mwyn atal mynediad heb awdurdod a thor-cyfrinachedd. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Gwnaethom ddefnyddio'r system cofnodion electronig drwy gydol yr arolygiad a nodwyd gennym fod cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus.

Gwelsom fod y staff yn cwblhau dogfennaeth cynllunio gofal ac asesiadau risg yn llawn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol tri chlaf, a gwelsom fod pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Chod Ymarfer Cymru, 1983 (diwygiwyd 2016).

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw.

Roedd cofnodion y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu storio'n briodol, yn drefnus ac yn cael eu cynnal yn dda, ac roedd yn hawdd iawn eu deall. Roedd gweinyddydd y Ddeddf Iechyd Meddwl yn defnyddio system effeithlon ac effeithiol i gefnogi'r gwaith o fonitro ac adolygu gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd y cofnodion a welsom yn cynnwys tystiolaeth fanwl o waith cynllunio priodol mewn perthynas â rhyddhau ac ôl-ofal, gyda chyfranogiad da gan y tîm amlddisgyblaethol, cydgysylltwyr gofal a gwasanaethau partner perthnasol yn y gymuned leol.

Gwnaethom nodi nad oedd copïau o awdurdodiadau absenoldeb yn cael eu rhoi fel mater o drefn i'r cleifion nac i'r aelodau hynny o'r teulu y mae'r cleifion yn eu cwmni yn ystod unrhyw gyfnod o absenoldeb.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o awdurdodiadau absenoldeb yn cael eu rhoi i'r cleifion neu aelodau o'u teuluoedd pan fyddant ar gyfnod o absenoldeb.

Dywedodd y gwasanaeth eirioli fod ganddo gydberthynas gadarnhaol a chefnogol â'r staff a'r cleifion a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaeth eirioli a sut i gael gafael arno.

Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod hawliau a chyfrifoldebau pobl fel cleifion anffurfiol yn cael eu cofnodi a'u llofnodi. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan arwyddion ar y ward a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion sut y gallent adael. Yn ogystal, roedd yn gadarnhaol gweld bod cyfyngiadau cyffredinol fel cloi toiledau cymunedol i atal digwyddiadau ar ôl prydau bwyd wedi cael eu nodi ar y gofrestr ymarfer cyfyngol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal pedwar claf a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda.

Roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys asesiadau risg manwl a chynlluniau strategol ar gyfer rheoli risgiau.

Gwelsom fod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys tystiolaeth o lais y cleifion er mwyn adlewyrchu eu barn ac roedd tystiolaeth o fewnbwn a chynghor rheolaidd gan ddeietegydd.

Roedd asesiadau risg yn cael eu cwblhau ond nodwyd nad oedd tystiolaeth bod asesiadau Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN) yn cael eu cwblhau. Mae'r ffaith na chynhelir asesiadau risg Cymru gyfan yn golygu bod asesiadau risg y gwasanaeth yn llai cyson gan fod pob gwasanaeth yng Nghymru yn cael ei annog i ddefnyddio'r asesiad hwn.

Roedd y cofnodion clinigol yn cael eu cadw'n dda ac yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r claf a'i sefyllfa bresennol. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u newid pan fydd angen. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod cofnod un claf yn cynnwys nodyn ar gyfer claf arall.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y nodiadau a wneir yng nghofnodion y cleifion yn ymwneud â'r claf cywir.

Roedd yr asesiadau iechyd corfforol a gynhelir pan gaiff cleifion eu derbyn yn gynhwysfawr iawn a nodwyd bod hyn yn arfer canmoladwy. Roedd tystiolaeth o fewnbwn parhaus gan y nyrs iechyd corfforol hefyd. Yn ogystal, roedd yn gadarnhaol gweld bod y cofnodion yn cynnwys llawer o ymarfer seiliedig ar dystiolaeth ac ymarfer wedi'i adolygu gan gymheiriaid mewn perthynas ag anhwylderau bwyta, a bod cyfeiriadau priodol at y ffynonellau gwybodaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan y staff.

Roedd rhai o ganlyniadau'r arolwg yn awgrymu nad oedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo eu bod yn cael adborth gan eu rheolwyr ar eu perfformiad yn y gwaith. Yn ogystal, teimlai rhai o'r staff nad ydynt yn aml yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau nac yn cael cyfle i roi barn ar benderfyniadau a allai effeithio ar eu gwaith.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant arwain a hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'u rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yn gadarnhaol gweld bod pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo bod eu rheolwyr yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau a'u bod yn hyderus ac yn gwybod sut i godi pryderon am ymarfer anniogel.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig fyfyrrio ar yr arolwg staff a sicrhau bod hyfforddiant arwain a hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â rolau a chyfrifoldebau'r staff yn cael eu darparu.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Daeth Ysbyty Tŷ Glyn Ebwy yn ddarparwr cofrestredig gydag AGIC ym mis Hydref 2023 ac mae'n rhan o Elysium Health Care. Mae'n wasanaeth newydd sy'n cynnig gofal a thriniaeth i fenywod ag anhwylderau bwyta. Er bod y gwasanaeth yn gymharol newydd, roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Yn ystod yr arolygiad, cydnabu uwch-aelodau o'r staff fod angen hyfforddiant ychwanegol ar y staff i feithrin y sgiliau arbenigol sydd eu hangen arnynt i ofalu am grŵp newydd o gleifion.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom sicrwydd gan yr uwch-reolwyr fod archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal a chafodd y tîm dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed. Darparwyd y dogfennau hyn yn brydlon i'r tîm, gan ddangos bod y systemau a'r strwythurau cywir ar waith.

Roedd rheolwr yr ysbyty a'r arweinydd clinigol yn cynnig arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau aml-ddisgyblaethol a grŵp o staff ymroddedig. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn

dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion, gan gydnabod ar yr un pryd eu bod yn dysgu ac yn datblygu'r gwasanaeth.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r hyfforddiant ychwanegol roedd ei angen arnynt i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion.

Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer y cleifion yn isel. Pan fydd y niferoedd yn cynyddu, rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y tîm staff yn parhau i ddiwallu anghenion y cleifion i gyd a bod gan y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r rhaglenni therapiwtig personol sydd wedi'u teilwra at y cleifion unigol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cafwyd geirdaon ar gyfer y staff cyn iddynt gael eu cyflogi. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom sicrwydd fod y broses recriwtio yn un agored a theg.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith er mwyn i'r staff allu mynegi pryderon. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael hefyd, ac roedd y staff yn canmol y cymorth lles a oedd yn cael ei ddarparu gan y tîm rheoli. Roedd systemau da ar waith i gefnogi lles y staff. Dywedwyd wrthym am y rhaglenni cymorth sydd ar gael gan Elysium Healthcare i gynorthwyo'r staff gyda llawer o agweddau ar eu gwaith a'u bywyd personol, gan gynnwys gwasanaeth cwnsela annibynnol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom edrych ar yr ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer staff yr ysbyty a gwelsom fod y cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddiant ar waith er mwyn i'r staff ddiweddarau eu hyfforddiant mewn modd amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion am gydymffurfiaeth aelodau unigol o'r

staff. Yn ogystal â'r hyfforddiant gorfodol, roedd rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar fwydo drwy diwb nasogastrig a hyfforddiant fflebotomi.

Clywsom fod y grŵp staff yn dechrau setlo'n well a'u bod yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth well o sut i gefnogi'r grŵp cleifion a gofalu amdano yn effeithiol. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw y byddai mwy o hyfforddiant arbenigol yn fuddiol. Cadarnhaodd rheolwr yr ysbyty fod cyrsiau hyfforddiant arbenigol yn cael eu trefnu ar gyfer y staff a bod rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ychwanegol ac wedi treulio amser mewn gwasanaethau anhwylderau bwyta eraill er mwyn meithrin mwy o sgiliau i gefnogi'r grŵp cleifion.

Roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd y staff yn cael eu hannog i fynd i'r cyfarfodydd hyn a chyfrannu syniadau ynghylch sut i wneud gwelliannau yn yr ysbyty. Roedd tystiolaeth hefyd fod sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal.

Cafwyd rhai ymatebion cymysg gan y staff o ran pa mor weladwy oedd yr uwch-reolwyr ar y ward, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn dweud bod rhai ohonynt yn weladwy ac eraill yn dweud nad oedd y rheolwyr i'w gweld yn aml ar y ward.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn weladwy ac yn ymgysylltu â'r tîm staff.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, gwelsom rywfaint o densiwn yn y gweithle a barn groes ymhlith y grŵp staff ar rolau a chyfrifoldebau. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y grŵp staff yn cydweithio fel tîm cydlynol a chefnogol a bod unrhyw wahaniaeth barn yn cael ei drafod yn gyfrinachol mewn rhannau preifat o'r ysbyty lle na all y cleifion ac ymwelwyr glywed. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y staff yn ceisio darparu lefelau uchel o ofal i'r grŵp cleifion.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y grŵp staffio yn gweithio fel tîm cydlynol a chefnogol sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o rolau unigol holl aelodau'r tîm, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r rheolwyr.

Roedd y staff yn gallu cael gfael ar y rhan fwyaf o'r dogfennau y gofynnodd y tîm arolygu amdanynt mewn ffordd brydlon ac amserol, sy'n dangos bod systemau llywodraethu da ar waith yn yr ysbyty.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn yr ysbyty, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd dyddiad y silindrau ocsigen newydd fynd hebio	Dim ocsigen ar gael mewn argyfwng	Codwyd y mater â rheolwr yr ysbyty	Archebwyd silindrau ocsigen newydd

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Tŷ Glyn Ebwy

Dyddiad yr arolygiad: 14 - 16 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni chafodd unrhyw achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith eu nodi yn ystod yr arolygiad					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Glyn Ebwy

Dyddiad yr arolygiad: 14 - 16 Ebrill 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Dywedodd y cleifion wrthym y byddai gweithgareddau mwy therapiwtig sy'n berthnasol i anhwylderau bwyta ac adfer yn fuddiol iddynt	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael gweithgareddau mwy therapiwtig sy'n berthnasol i anhwylderau bwyta ac adfer.	Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cyflwyno dogfen therapi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gwybodaeth i gleifion am y therapïau a'r grwpiau a gynigir a'u perthnasedd i anhwylderau bwyta. Fel bod y cleifion yn gwybod sut mae grwpiau a sesiynau yn berthnasol i anhwylderau bwyta.	Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki Wheeler	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus o safbwynt grwpiau a hysbysu cleifion

2.	Dyweddod y cleifion a'u teuluoedd wrthym y byddent yn hoffi gweld mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig dros y penwythnos.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gweithgareddau ar gael i'r cleifion dros y penwythnos.	Hybu, diogelu a gwella iechyd	Wedi cael ei gydnabod a'i drafod gan y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r therapydd galwedigaethol arweiniol wedi nodi gweithgareddau strwythuredig ar gyfer y penwythnosau ac wedi eu hychwanegu at 'Wythnos Ystyrlon' a chaiff tystiolaeth o'r gweithgareddau a gyflawnwyd a'r sesiynau a gynigiwyd ei chofnodi yn y nodiadau gofal ar bob shiftt.	Rheolwr y Ward, Lisa Murphy	Wedi'i gwblhau
3.	Dyweddod y cleifion a'r staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd cyfleusterau storio diogel yn ystafelloedd gwely'r cleifion ac nad oedd	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff a'r cleifion yn cael gwybod bod cyfleusterau storio diogel ac allweddi ar gael ar gyfer ystafelloedd.	Urddas a pharch	Mae cyfleusterau storio diogel ar gael o dan bob gwely. Mae'r cleifion yn ymwybodol o'r cypyrddau hyn a gallant ofyn am allwedd os byddant	Rheolwr diogelwch y safle, Lee Davies Rheolwr y Ward, Lisa Murphy	Wedi'i gwblhau

	gan y cleifion allweddi i fynd i mewn i'w hystafelloedd.			am wneud hynny. Mae'r un peth yn wir am ddrysau eu hystafelloedd gwely. Mae loceri ar gael yn yr orsaf nyrsio hefyd os bydd y cleifion am storio eitemau llai o faint yn ddiogel. Pwysleisiwyd hyn yn ystod cyfarfodydd cymunedol.		
4.	Dyweddodd rhai o'r cleifion wrthym, er eu bod yn rhoi adborth, nad ydynt bob amser yn teimlo bod y gwasanaeth yn gwrando arnynt.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod adborth cyflym ac amserol yn cael ei roi i'r cleifion ar faterion a godir ganddynt.	Urddas a pharch	Wedi'i gynnwys yng nghyfarfod cymunedol y cleifion 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'. Byrddau i adlewyrchu hyn. Mae byrddau wedi cael eu harchebu a byddant yn cael eu harddangos a'u diweddarau (ar ôl y cyfarfodydd cymunedol a llywodraethu) ar y ward cyn gynted ag y	Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki Wheeler Rheolwr diogelwch y safle, Lee Davies	31/07/2024

				byddant yn cyrraedd		
5.	Ar hyn o bryd, mae'r giât fynediad a'r ffens amgylchynol yn ymddangos yn gyfyngol.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r giatiau clo a'r ffens amgylchynol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd.	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Giât y gellir gyrru'n syth drwyddi - yn diogelu'r ysbyty rhag risgiau allanol. Bydd y giât i gerddwyr yn cael ei chadw ar agor fel y gall cerddwyr fynd a dod fel y mynnant. Rydym wedi holi am farn y cleifion ar y giatiau ac ni wnaethant fynegi barn y naill ffordd na'r llall ynghylch a fyddai'n well ganddynt eu bod ar agor drwy'r amser neu ar gau drwy'r amser Protocol i'w lunio a'i gymeradwyo yn ystod cyfarfod Llywodraethu	Rheolwr diogelwch y safle, Lee Davies Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki Wheeler	31/07/2024
6.	Dywedodd y cleifion wrthym fod y lifftiau	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y lifftiau'n cael eu trwsio'n	Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Mae dyfeisiau hydrolig yn cael eu cynhyrchu	Rheolwr diogelwch y safle,	31/07/2024

	wedi torri'n aml a'i bod weithiau yn cymryd amser iddynt gael eu trwsio.	gyflym ac mewn modd amserol pan na fyddant yn gweithio.		a chaiff y brif lifft ei huwchraddio. Caiff lifft grisiau ei gosod ar 12/06/2024 hefyd er mwyn sicrhau nad oes angen i'r cleifion ddefnyddio'r grisiau. Caiff asesiad risg o'r lifft grisiau ei gynnal ar gyfer pob claf. Caiff gweithdy hyfforddiant i'r staff ei gynnal ar ôl i'r lifft grisiau gael ei gosod. Caiff protocol lleol ei lunio a'i rannu cyn i'r lifft gael ei defnyddio gan y cleifion	Lee Davies Britton Price Lifts Acorn Lifts Therapydd Galwedigaethol Arweiniol, Rachel Mayne	12/06/2024 28/6/2024
7.	Roedd yr ardd ar glo yn aml ac felly roedd yn rhaid i'r cleifion ofyn i'r staff ddatgloi'r ardd yn ystod y dydd os oeddent am ei defnyddio.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gall y cleifion fynd i'r gerddi fel y mynnant yn ystod y dydd.	Amgylchedd	Gan fod yr ardd ar y llawr gwaelod, mae angen hebryngwr ar y cleifion i sicrhau eu bod yn ddiogel ac i agor drysau Mae dyfynbrisiau'n cael eu trefnu ar gyfer gwaith i	Rheolwr diogelwch y safle, Lee Davies Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki Wheeler OTL Kingsley Build Group Ltd.	Parhaus 10/06/2024

				ailwampio'r ardd ar lefel y ward. Dyfnbris OTL Mae angen un dyfnbris arall ac rydym wedi gofyn amdano		30/06/2024
8.	Nid yw polisi presennol Elysium ar atal yn gorfforol yn cyfeirio'n benodol at ddulliau atal o fewn gwasanaethau anhwylderau bwyta.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisi presennol yn cael ei ddiweddarau a'i fod yn cyfeirio'n benodol at ddulliau atal o fewn gwasanaethau anhwylderau bwyta.	Maeth	Ceir tystiolaeth o hyn ym mholisi presennol Elysium ar reoli trais ac ymddygiad ymosodol. Os bydd angen cymorth ar unrhyw glaf i gydymffurfio â'r polisi bwydo drwy diwb nasogastrig neu reoli ymddygiad heriol, bydd gan y claf hwnnw gynllun rheoli trais ac ymddygiad ymosodol mewn modd diogel a therapiwtig ar waith er mwyn rhoi cymorth ac arweiniad i'r staff, sydd i gyd wedi cael	Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki Wheeler	07/06/2024

				hyfforddiant ar reoli trais ac ymddygiad ymosodol mewn modd diogel a therapiwtig.		
9.	Dywedodd y cleifion wrthym mai'r prif beth roeddent yn cwyno amdano oedd prydau bwyd. Roedd pryderon wedi cael eu codi bod maint y prydau bwyd yn anghywir ac nad oedd y bwyd yn cael ei baratoi a'i weini i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn eu helpu i adfer.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i faint prydau bwyd a'r ffordd y caiff prydau bwyd eu paratoi.	Maeth	<p>Mae camau clir wedi cael eu cyflwyno ar gyfer cynlluniau bwyd ac mae maint prydau yn rhan o'r camau hyn.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff arlwygo wedi treulio amser yn cysgodi mewn gwasanaeth anhwylder bwyta cysylltiedig (Cotswold House)</p> <p>Mae'r staff arlwygo, staff y ward a'r cleifion bellach yn deall y cyfarwyddyd clir ynghylch maint prydau bwyd.</p>	Chioma - Deietegydd	31/05/2024 Wedi'i gwblhau
					Rheolwr diogelwch y safle - Lee Davies Staff arlwygo	04/04/2024 10/04/2024 Cysgodi shifftiau
10.	Yn ystod prydau bwyd, gwelsom nad	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y	Maeth	Mae mwy o hyfforddiant ar	Pob aelod o'r staff	13/08/2024

	oedd y staff yn ymgysylltu â'r cleifion cyn nac ar ôl bwyta i roi cymorth iddynt.	cleifion yn cael cymorth gan y staff cyn ac ar ôl prydau bwyd a bod y staff yn cael hyfforddiant digonol i'w galluogi i gefnogi'r cleifion yn effeithiol ar yr adegau hyn.		gymorth mewn perthynas â phrydau bwyd wedi cael ei drefnu. Sesiynau dydd llawn - sesiwn gyntaf i'w chynnal. 11/06/2024 Caiff rhagor o sesiynau eu trefnu. Hwyluswyd gweithdy ar gymorth mewn perthynas â phrydau bwyd hefyd. Mae gweithdai staff wedi cael eu trefnu a chânt eu hwyluso er mwyn helpu'r staff i ymgysylltu â'r grŵp cleifion a gwella eu sgiliau a'u hyder.	Tîm amlddisgyblaethol Vicki Wheeler, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	
11.	Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi codi pryderon bod staff y gegin yn	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff y gegin yn cadw at gynlluniau bwyd a maint	Maeth	Mae system glir wedi cael ei datblygu i sicrhau y gellir dod o hyd i unrhyw	Vicki Wheeler, Cyfarwyddwr yr Ysbyty Lisa Murphy,	Wedi'i gwblhau

	<p>paratoi maint prydau bwyd yn anghywir. Dywedodd rhai cleifion fod cynlluniau bwyd wedi cael eu colli neu fod y gegin wedi gweini prydau anghywir nad oeddent yn cyd-fynd â'u cynllun.</p>	<p>prydau bwyd y cleifion.</p>		<p>ddewisiadau bwyd/bwydlenni sydd ar goll yn hawdd. Caiff dewisiadau bwyd eu sganio a'u cadw mewn ffolder ar yriant a rennir yr ysbyty cyn cael eu hanfon i'r gegin. Lleihau'r risg bod dewisiadau yn cael eu colli. Mehefin 2024 - nodwyd lleihad sylweddol yn nifer y cwynion ynghylch y ddarpariaeth arlwyo / cegin a systemau</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	
12.	<p>Roedd y dyddiad ar y polisiau meddyginiaeth yn yr ystafell glinigol wedi mynd heibio.</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau yn yr ystafell glinigol yn gyfredol.</p>	<p>Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Ni ddylid argraffu unrhyw bolisiau gan eu bod ar gael ar y fewnwyd. Symudwyd y polisi o'r clinig</p>	<p>Vicki Wheeler, Cyfarwyddwr yr Ysbyty</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
13.	<p>Ar noson gyntaf yr arolygiad, bu rhywfaint o oedi cyn i'r staff ddod o hyd i'r</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod ble mae'r torwyr</p>	<p>Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae'r staff i gyd yn gwybod ble mae'r torwyr clymau'n cael</p>	<p>Lisa Murphy - Rheolwr y Ward</p>	<p>Archwiliad misol parhaus</p>

	torwyr clymau.	clymau'n cael eu cadw a bod modd cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng.		eu storio - maent wedi'u cynnwys ar y rhestr wirio diogelwch a gaiff ei gwirio ddwywaith yn ystod pob shifft. Mae gennym 'Holiadur staff' hefyd sy'n gofyn i 5 aelod o staff bob mis a ydynt yn gwybod ble mae'r torwyr clymau yn cael eu cadw.		
14.	Dywedodd y staff wrthym y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant mwy pwrpasol mewn perthynas ag anhwylderau bwyta a chadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod yn teimlo bod angen hyfforddiant mwy arbenigol ar y staff.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael mwy o hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol ag anhwylderau bwyta.	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Mae mwy o hyfforddiant ar gymorth mewn perthynas â phrydau bwyd wedi cael ei drefnu. Sesiynau dydd llawn - sesiwn gyntaf i'w chynnal. 11/06/2024 Caiff rhagor o sesiynau eu trefnu. Hwyluswyd gweithdy	Vicki Wheeler - Cyfarwyddwr yr ysbyty	13/08/2024

				<p>ar gymorth mewn perthynas â phrydau bwyd hefyd.</p> <p>Mae gweithdai staff wedi cael eu trefnu a chânt eu hwyluso er mwyn helpu'r staff i ymgysylltu â'r grŵp cleifion a gwella eu sgiliau a'u hyder.</p> <p>Bydd y gweithdai yn parhau cyhyd ag y bydd y staff yn nodi bod angen cymorth addysgol ychwanegol arnynt a nes bod pob aelod o'r staff wedi mynd i'r gweithdai</p>		
15.	<p>Gwnaethom nodi nad oedd copïau o awdurdodiadau absenoldeb yn cael eu rhoi fel mater o drefn i'r cleifion nac i'r aelodau hynny o'r teulu y mae'r cleifion yn eu cwmni yn ystod</p>	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o awdurdodiadau absenoldeb yn cael eu rhoi i'r cleifion neu aelodau o'u teuluoedd pan fyddant ar gyfnod o absenoldeb.</p>	Rheoli cofnodion	<p>Lisa Murphy i lunio rhestr wirio / cynllun sesiwn ar gyfer Prif Nyrsys</p> <p>Mae ffolderi cleifion / llyfrau arddangos yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gofal, ynghyd â ffurflen</p>	<p>Lisa Murphy, Rheolwr y Ward</p> <p>Prif Nyrsys</p>	<p>30/06/2024</p> <p>Sesiynau wythnosol parhaus ar gyfer y Prif Nyrsys</p>

	unrhyw gyfnod o absenoldeb.			awdurdodi absenoldeb y cleifion, a chaiff y wybodaeth hon ei chasglu yn ystod sesiwn y Brif Nyrs er mwyn sicrhau bod y fersiynau diweddaraf i'w gweld yn eu ffolder. Mae ffolderi wedi cael eu harchebu a chânt eu dosbarthu ar ôl iddynt gyrraedd	Rebecca Woolley PA/ Lee Davies	Wedi'i gwblhau/wedi cyrraedd 11/06/2024
16.	Gwnaethom nodi bod cofnod un claf yn cynnwys nodyn ar gyfer claf arall.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y nodiadau a wneir yng nghofnodion y cleifion yn ymwneud â'r claf cywir.	Rheoli cofnodion	Gwall dynol a chaiff y staff eu hannog i roi gwybod os caiff gwall ei wneud fel y gellir dilyn proses i ddileu'r nodyn dan sylw. Er mwyn gwneud hyn, byddai'n rhaid codi tocyn TG a bydd y tîm apiau yn dilyn y cyfarwyddyd i ddileu'r nodyn	Vicki Wheeler, Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Parhaus
17.	Cafwyd ymateb cymysg gan y staff	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn	Fframwaith llywodraethu ac	Egluro a rhannu rolau a chyfrifoldebau a		

	ynghylch pa mor weladwy oedd yr uwch-dîm rheoli ar y ward.	weladwy ac yn ymgysylltu â'r tîm staff.	atebolrwydd	disgwyliaidau ar gyfer swyddi gwahanol. Diwylliant staffio cyfunol Rota i uwch-reolwyr fynd i'r ward bob bore. Arddangos bwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar gyfer y staff yn yr ystafell staff.	Vicki Wheeler, Cyfarwyddwr yr Ysbyty Rebecca Wooley PA	28/06/2024 Wedi'i gwblhau 11/06/2024 Wedi'i gwblhau 10/06/2024
18.	Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, gwelsom rywfaint o densiwn yn y gweithle a barn groes ymhlith y grŵp staff ar rolau a chyfrifoldebau.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y grŵp staffio yn gweithio fel tîm cydlynol a chefnogol sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o rolau unigol holl aelodau'r tîm, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a	Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Adolygu'r llawlyfr staff a chynnwys siart byramid gyfredol o bersonél y sefydliad. Rhannu'r siart â'r staff i gyd drwy'r e-bost cyfathrebu wythnosol	Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki Wheeler Cyfarwyddwr yr ysbyty, Vicki	01/07/2024 Wedi dechrau ym mis Ebrill 2024 -

		dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau'r rheolwyr.			Wheeler	parhaus
19.	Dyweddodd y staff a gwblhaodd yr arolwg y byddai'n fuddiol iddynt gael hyfforddiant arwain a hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'u rolau a'u cyfrifoldebau.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig fyfyrion ar yr arolwg staff a sicrhau bod hyfforddiant arwain a hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â rolau a chyfrifoldebau'r staff yn cael eu darparu.	Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu	Mae rhai o'r staff nyrsio eisoes wedi gwneud cais ar gyfer cyrsiau arwain a chânt eu hannog o hyd fel rhan o'r broses oruchwyllo yn ystod arfarniadau parhaus	Rheolwr y Ward, Lisa Murphy	Parhaus

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Vicki Wheeler

Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 11/06/2024